

GWIR GYFEILLGARWCH GYDA DUW A CHYMYDOG

Nodyn i'r siaradwr:

Dylid traddodi'r anerchiad â chynhesrwydd ac mewn dull sy'n apelio. Helpwch y gynulleidfa i werthfawrogi cymaint braint a llawenydd sydd o ddod yn ffrind i Jehofah a pham y dylem ni wneud pob ymdrech i'w 'nabod e a'i blesio

CARIAD YW GWREIDDYN POB GWIR GYFEILLGARWCH (3 mun.)

'Dyw ffrind a chydabod ddim yr un peth

Mae bod yn gyfaill yn gofyn am fwy o ymddiried, mwy o anwylddeb a pharch, a theyrngarwch dyfnach, a hefyd yn mynnu ymwybyddiaeth uwch o gyfrifoldeb

'Rydym yn teimlo anwylddeb at gyfaill, ac 'rydym yn ei edmygu ac yn medru ymlacio a mwynhau ei gwmni
Mae un geiriadur yn diffinio "cyfaill" fel "Un sy'n ymlynu wrth un arall oherwydd hoffter neu barch"

Mae ffrindiau agos yn barod i gyflawni gofynion ymlynu'n glôs bersonol, gan sylweddoli fod hyn yn rhoi cyfle iddyn' nhw brofi'u cyfeillgarwch

Mae pwy bynnag sy'n dymuno cyfeillgarwch ond yn amharod i fod yn deyrngar a derbyn cyfrifoldeb, mewn gwirionedd yn dymuno nid ffrind ond cydnabod (*w92 6/1 24*)

Cariad diffuant, sy'n medru gwrthsefyll treialon ac nad yw byth yn darfod, ydi sail pob gwir gyfeillgarwch (1Cor 13:8)

Oherwydd cael ei gymell gan gariad, bydd gwir gyfaill yn gefn i chi mewn adfyd ac yn cynghori mewn ffyddlondeb (Diar 17:17; 27:9)

Bydd caru Duw yn ein cymell ni i geisio ennill ei gyfeillgarwch

Mae'r Beibl yn dangos beth sy'n rhaid inni ei wneud i fwynhau gwir gyfeillgarwch gyda Duw a chymydog

ENGHREIFFTIAU O WIR GYFEILLGARWCH YN Y BEIBL (10 mun.)

Yn y Beibl mae llawer enghraifft o wir gyfeillgarwch, y medrwn ni eu hefelychu nhw

'Roedd cyfeillgarwch Ruth a Naomi yn un cadarn

Fe fu Ruth, er nad yn Israeliad, yn hynod ffyddlon a chariadus tu hwnt wrth ei mam yng nghyfraith, Naomi
Er ei bod yn weddw ddiblant, gwrthododd Ruth â'i gwahanu'i hun oddi wrth Naomi (Ruth 1:16, 17)

Cymaint oedd ei chariad fel y dywedodd eraill yn ddiweddarach ei bod yn well i Naomi na saith o feibion (Ruth 4:15; *it-2 828*)

'Roedd Dafydd a Jonathan yn gyfeillion agos iawn

Mae'n amlwg i ffydd Dafydd yn Nuw a'i wrhydri wrth wynebu Goliath wneud argraff ar Jonathan (*it-2 102*)

Daethant yn gyfeillion cywir, yn medru llwyr ymddiried yn ei gilydd (1Sam 18:1, 3; 20:17, 42; *w96 3/15 4-5*)

Er bod Jonathan yn etifedd gorsedd Israel, 'roedd buddiannau Dafydd yn bwysicach iddo na'i rai ei hun (1Sam 20:31, 32; 23:16-18; *w89 1/1 24-5*)

'Roedd eu cyfeillgarwch yn rhywbeth na ellid ei dorri oherwydd mai'r hyn oedd bwysicaf i'r ddau ddyn oedd cyfeillgarwch â Duw a bod yn deyrngar iddo

Pan fu Jonathan farw, galarodd Dafydd yn ddwys o'i golli (2Sam 1:25, 26)

'Roedd cyfeillgarwch agos iawn rhwng Iesu a'i ddisgyblion ffyddlon

Eglurodd wybodaeth am Dduw Jehofah iddyn' nhw (Mc 4:34)

Fe barhaodd eu cyfeillgarwch er gwaethaf treialon lawer ac fe fydd yn para am byth (Lc 22:28-30; In 13:1)

'Roedd Iesu yn fodlon marw drostyn' nhw (In 15:11-15)

SUT I DDOD YN FFRIND I DDUW (15 mun.)

'Dyw hi ddim yn dilyn o anghenrhaid ein bod yn dod yn ffrind i Dduw am mai ef ydi'n Creawdwr ni

Mae angen ffydd; rhaid credu fod Duw yn bod, ac mae'n rhaid inni geisio'i gyfeillgarwch e (Heb 11:6)

Mae angen cael gwybodaeth gywir amdano, ei bersonoliaeth, ei weithredoedd, a'i fwriadau (In 17:3)

Rhaid meithrin parchedig ofn at Jehofah a dangos ein bod yn ei garu trwy ufuddhau iddo (Salm 25:14; 1In 5:2, 3)

Mae cyfeillgarwch â Duw yn gofyn ein bod yn ymddiried ynddo

Heb yr ymddiried hwn, 'fedr dim un berthynas bara, boed gyda dyn neu gyda Duw

'Roedd Abraham yn deall hyn gan weithredu llwyr ymddiried yn Nuw dro ar ôl tro (Heb 11:8, 9, 17-19)

Felly galwyd ef yn gyfaill Duw (Darllen Iago 2:21-23)

Mae Duw yn caru cyfiawnder ac mae e'n disgwyl i'w gyfeillion hefyd garu cyfiawnder (Salm 33:5)

Ceisiwch fod yn gyfeillion gyda'r rhai sy'n gyfeillion i Dduw, ac osgoi'r rhai sy'n amlwg heb barch at egwyddorion duwiol (Iago 4:4)

Byddwch yn deyrngar i Dduw a bod yn barod i siarad ar ei ran (Eseia 6:8)

Peidiwch â chadw'ch cyfeillgarwch â Duw yn gyfrinachol; cyffeswch hynny â'ch genau er iachawdwriaeth (Rhuf 10:10)

Mae cyfathrebu â Duw yn hanfodol i sicrhau ei gyfeillgarwch

Siaradwch â Duw trwy weddi, a datgelu'ch teimladau mwyaf personol (Phil 4:6, 7)

Gwrandewch ar Dduw trwy ddarllen ei Air a'i roi ar waith (*w92* 6/1 26)

Mae a wnelo iawn ddefnyddio "mammon anghyfiawn" ("mammon of unrighteousness" *Interlinear*) â gwneud ffrindiau gyda Duw (Lc 16:9, 11-13 *BCL*; *it-1* 873)

Bydd rhoi'r lle blaenaf yn ein bywydau i addoli Jehofah a defnyddio'n heiddo'n ddoeth yn ein helpu ni i gadw'n cyfeillgarwch â Duw (*w94* 12/1 18)

Mae'n cyfeillgarwch ni â Duw yn dibynnu ar ein hymdrechion ni i fyw yn ôl gofynion Ysgrythurol (*w89* 9/15 26-30; darllen Salm 15:1-5)

CYFEILLGARWCH Â CHYMYDOG (12 mun.)

Mae bod yn ffrind yn golygu gwneud rhagor na dangos cyfeillgarwch

Rhaid bod yn ddiffuant ac ystyried buddiannau eraill

Dilynwch gyngor Paul drwy wneud da i bawb, yn enwedig i'r rhai sydd o deulu'r ffydd (Gal 6:9, 10)

Gwnewch dda i *bawb* drwy rannu gobaith y Deyrnas gyda nhw (Math 28:19, 20; In 15:14)

Fel Iesu, mae Cristion yn dangos cariad at y ddynoliaeth yn gyffredinol, ond dim ond i'r rhai sy'n gyfeillion i Dduw mae e'n rhoi y math o gariad sy'n perthyn i gyfeillgarwch (2Cron 19:2)

Byddwch yn flaengar wrth gynnig prawf o gyfeillgarwch (1In 4:19)

Byddwch yn barod i'ch rhoi eich hunan, eich amser, eich empathi, a'ch adnoddau materol (Diar 17:17; *w96* 11/1 15)

Glynwch wrth egwyddorion cyfiawn a byddwch yn deyrngar (Salm 97:10)

Peidiwch â bod yn rhy barod i wrando clecs (*w96* 9/15 22; 3/15 6)

Byddwch yn onest gyda chyfaill sydd ag angen clywed y gwirionedd, a pheidiwch â digio wrth ffrind sy'n llefaru'r gwir (Diar 27:6; Gal 4:16)

Byddwch yn garedig, yn dosturiol, ac yn barod i faddau (Col 3:12-14)

Bydd gostyngyddrwydd a pharodrwydd i ymddiheuro o'n calon yn ein helpu ni i gadw'n cyfeillion (*w96* 9/15 22-4)

Os bydd angen, byddwch yn barod i aberthu'ch bywyd er mwyn y brodyr, fel gwnaeth Iesu [Adroddwch brofiad dilys neu ddau] (*g98* 10/22 22; *w96* 11/1 18)

BENDITHION GWIR CYFEILLGARWCH (5 mun.)

'Dyw cyfeillgarwch â Duw ddim yn anymarferol nac yn anghyraeddadwy

Daeth Abraham yn gyfaill Duw

Fel yntau, mae'n bwysig inni gydnabod fod ymrwymadau i Dduw yn llawer uwch na'r rhai sydd mewn cyfeillgarwch dynol

'Roedd Iesu'n Fab Duw ac yn gyfaill mynwesol iddo (In 1:18)

Fel Iesu, ceisiwch fodloni Duw ym *mhob* peth (In 8:29; *w92* 6/1 25)

Mae parhau'n gyfeillion â Duw yn dod â ni'n rhan o gynulleidfa gynnes, gariadus addolwyr Jehofah (Salm 27:10; 133:1)

Yno cawn wir gyfeillion, sydd hefyd yn mwynhau cyfeillgarwch Jehofah

Maen' nhw'n sylweddoli fod pob cyfeillgarwch fydd yn para am byth wedi'i seilio ar gyfeillgarwch â Jehofah

Mae cyfeillgarwch â Duw yn dod â hapusrwydd inni 'nawr ac yn arwain yn y dyfodol at fywyd tragwyddol

Yn fuan iawn, bydd Jehofah ac Iesu yn hebrwng eu cyfeillion i fyd newydd, lle bydd pawb yn wir gyfeillion (Eseia 11:9)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun na gwneud sylwadau arnynt)